
Senedd Cymru
**Ymweld a Dysgu**

# Her y ddraig

## Llyfr Gweithgareddau



Enw:

Ysgol:

**Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.**

Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**© Hawlfraint Comisiwn Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neugyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Gwybodaeth i athrawon, rhieni a gofalwyr

## Croeso i lwybr gweithgareddau'r Senedd

Nod yr adnodd hwn yw dysgu plant rhwng 5 ac 8 oed am adeilad y Senedd ac am waith Senedd Cymru.

Ein nod yw y bydd plant yn:

- Deall bod y Senedd yn adeilad pwysig i bobl Cymru
- Dysgu am nodweddion cynaliadwy'r Senedd
- Dysgu am rôl Aelod o'r Senedd a gwaith Senedd Cymru
- Meddwl am y materion sy'n bwysig iddyn nhw, fel newid hinsawdd, addysg ac iechyd

# y Senedd


## Croeso i'r Senedd!
(se–neth).

Mae hwn yn adeilad pwysig iawn yng Nghymru.

Grŵp o bobl sy'n cyfarfod i drafod materion pwysig ac i wneud cyfreithiau newydd yw **Senedd**.

Yn y Senedd, mae'r Aelodau'n cyfarfod i siarad am faterion pwysig sy'n effeithio ar bobl yng Nghymru.





# Archwilio'r Neuadd

Rwyt ti nawr yn sefyll yn Neuadd y Senedd.

**Alli di ddyfalu sut rydyn ni'n casglu dŵr glaw?**

**Ar gyfer beth wyt ti'n meddwl rydyn ni'n defnyddio'r dŵr glaw?**

**Sut wyt ti'n meddwl bod y waliau gwydr yn ein helpu i arbed ynni?**

**Pam mae arbed ynni yn bwysig?**

# Mapiau o Gymru

Mae'r mapiau hyn yn dangos llawer o lefydd yng Nghymru.

**Rho X ar y map yma i ddangos lle rwyt ti'n byw.**

**Beth wyt ti'n ei hoffi am lle rwyt ti'n byw? Ysgrifenna neu tynna lun o dy atebion yma:**





# Yr Oriel

Dyma'r Oriel. Yng nghanol y Senedd mae'r twndis.

**Mae siâp anarferol i'r twndis. O beth mae'n dy atgoffa?**

**O beth wyt ti'n meddwl mae wedi ei wneud?**

**Edrycha i fyny ar y nenfwd. Pa siapiau weli di?**

**Edrycha i lawr o dan y twndis. Beth wyt ti'n ei weld?**

# Y Siambr

Dyma'r ystafell bwysicaf yn y Senedd.

Yn y Siambr mae'r Aelodau'n cyfarfod i siarad am faterion pwysig ac i benderfynu ar gyfreithiau newydd i Gymru.

**Alli di feddwl am syniad newydd i wella Cymru? Ysgrifenna neu tynna lun o dy ateb yma:**





# Y tu mewn i'r Siambr

Pwy sy'n gweithio yn y Siambr?



**Elin Jones yw Llywydd Senedd Cymru.**

Ei gwaith hi yw gwneud yn siŵr bod pawb sydd eisiau siarad yn cael cyfle i siarad, a bod pob Aelod yn cael ei drin yn deg.



**Eluned Morgan yw'r Prif Weinidog Cymru ac arweinydd Llywodraeth Cymru.**

Mae Aelodau eraill y Senedd yn gofyn cwestiynau bob wythnos yn y Siambr. Maen nhw'n cadw llygad ar sut mae Llywodraeth Cymru yn rhedeg y wlad.

# y tu mewn i'r Siambr

Mae yna bethau diddorol i'w gweld yn y Siambr.



**Gan ddefnyddio'r cliwiau hyn, alli di ddod o hyd i'r pethau sydd yn y lluniau? Tynna linell i gysylltu'r llun cywir gyda'r wybodaeth gywir.**



## Calon Cymru

Edrycha i lawr i ganol y llawr ac fe weli di'r darn yma o gelf.


Mae wedi ei wneud o wydr a resin, ac mae'n dangos bod y Senedd wrth galon bywyd yng Nghymru.


## y Byrllysg

Fe weli di'r Byrllysg o flaen lle mae'r Llywydd yn eistedd.

Mae'r Byrllysg wedi ei wneud o aur, arian a phres.

Mae'n cael ei gario i mewn i'r Siambr ar ddechrau senedd newydd.





# Y tu mewn i'r Siambr

Alli di ddod o hyd i'r ffordd drwy'r Siambr er mwyn cyrraedd y Byrllysg yn y canol, ac yn ôl allan eto?



**Mae'r Byrllysg yn rhodd i'r Senedd Cymru gan Senedd De Cymru Newydd yn Awstralia.**

**Fe'i cyflwynwyd i'r Senedd Cymru ar 1 Mawrth 2006 yn yr Agoriad Brenhinol.**

**Mae'r Byrllysg wedi'i wneud o aur, arian ac efydd ac fe'i dyluniwyd gan wneuthurwyr aur Fortunato Rocca ym Melbourne.**

**Cymerwyd 300 o oriau i'w wneud ac mae wedi'i addurno ag arwyddluniau Senedd De Cymru Newydd a'r Senedd Cymru.**

# Beth mae Aelod yn ei wneud




**Pa gwestiwn hoffet ti ei ofyn i dy Aelod o'r Senedd?**

Ysgrifenna neu tynna lun o dy ateb isod:




**Fy syniad i!**

# Dyfodol Cymru

Pa newidiadau hoffet ti eu gweld lle rwyt ti'n byw?


**Rho gylch o amgylch dy hoff syniad, neu ychwanega dy syniad dy hun**



Mwy o blanhigion a choed?



Strydoedd glanach?



Mwy o lefydd i chwarae?

Senedd Cymru
Welsh Parliament

www.senedd.cymru | www.senedd.wales